# PECYN GWIRFODDOLWR

## Cynorthwyydd Nofio Gwirfoddol

### Gwybodaeth Ynglŷn â'r Tîm:

Mae ein rhaglen nofio'n hynod o boblogaidd ac mae gan bob lleoliad restr aros am wersi. Mae gennym dîm profiadol o hyfforddwyr nofio profiadol sy'n rhoi gwersi wythnosol. Mae gwersi nofio ar gael yn y rhan fwyaf o'n canolfannau (Canolfan Hamdden Huw Jones yng Nghorwen, Canolfan Hamdden Rhuthun, Canolfan Hamdden Dinbych, Canolfan Hamdden y Rhyl a Chanolfan Nova ym Mhrestatyn) ac mae cyfleoedd i wirfoddoli ym mhob un o'r rhain.

### Tasgau Allweddol:

Mae'r tasgau arferol y gofynnir i chi ymgymryd a nhw wedi'u rhestru isod, a chewch hyfforddiant lawn ar bob un.

- Helpu dysgwyr i ddeall y cyfarwyddiadau
- Gofalu fod y dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus
- Helpu'r hyfforddwr nofio i adnabod dysgwyr sydd o bosibl angen ychydig o help ychwanegol
- Helpu i wneud pethau'n barod cyn y gwersi a chlirio wedyn
- Cofrestru

### Gofynion:

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol, rydym yn chwilio am o bobl gyfeillgar, hawdd mynd atynt sy'n caru nofio. Os oes gennych chi sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu rhagorol ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm, byddwch yn ffitio i mewn yn syth. Oherwydd natur y swydd mae'n rhaid i'n holl wirfoddolwyr fod yn hapus yn y dŵr a rhaid iddynt gytuno i gael gwiriad DBS.

### Oriau:

Mae'r mwyafrif helaeth o'n gwersi ar ôl yr ysgol, felly o tua 3.30pm ymlaen bob dydd ac rydym yn hapus i'ch cefnogi chi i wirfoddoli ar gyfer pa nifer bynnag o wersi sydd orau gennych chi. Rydym yn gwahodd ein holl wirfoddolwyr i roi gwybod pa bryd y byddant ar gael ychydig wythnosau ymlaen llaw er mwyn gallu eu clustnodi i'r gwersi sydd fwyaf addas iddyn nhw.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?:

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, ewch i'n gwefan www.denbighshireleisure.co.uk i lenwi ein ffurflen fer. Ar ôl i chi neud hynny byddwn yn gwahodd i ddod am sgwrs am y rôl.

***This document is also available in English***